



The Senedd Cross Party Group on Renewable and Low Carbon Energy
Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel

12.30 - 1.30pm, Tuesday 29 March 2022

12.30 - 1.30yp, ddydd Mawrth 29 Mawrth 2022

Online meeting / Cyfarfod ar-lein

Minutes / Cofnodion

Precedents in Energy Autonomy

Cynseiliau mewn Ymreolaeth Ynni

Members of the Senedd

Aelodau'r Senedd

Delyth Jewell MS (Cadeirydd)

Siaradwyr gwadd

Malcolm Crosby, Rheolwr Prosiectau Ynni Adnewyddadwy, Forestry and Land Scotland

Mike Palmer, Dirprwy Gyfarwyddwr Cynllunio a Pholisi Morol, Llywodraeth yr Alban

Yn bresennol

Alexander Williams, GME Services

Andy Billcliff, Ynni Morlais /Menter Môn

Andy Regan, NESTA

Angharad Davies, Cadno Communications

Ben Lewis, Barton Willmore

Charlotte Davidson, Prifddinas-Ranbarth
Caerdydd

Chris Thomas

Clare Cameron, Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Dafydd Williams, Eco2 Limited

David Clubb, Afallen

David Jones, Blue Gem Wind

Delyth Jewell, Cadeirydd

Gareth Hawkins, Statkraft

Gwenllian Elias, Savills

Hayley Warrens, Trafnidiaeth Cymru

Helen Westhead, Arup

Huw

Ian Masters, Prifysgol Abertawe

Jack Wilkinson-Dix, Energy Saving Trust

Jake Thompson, Cyngor Caerdydd

James Grey

Jennifer Pride, Llywodraeth Cymru

Jocelyn Donald

Ynni Morol Cymru

Meryl Lewis, Pennant Walters

Mike Pitcher, Cyfoeth Naturiol Cymru

Lawrence Cox, Belltown Power

Lydia Godden, Cadno Communications

Neil Lewis, Ynni Sir Gâr

Paul Hewett, Belltown Power UK

Peter Trott, Afallen LLP

Philippa Powell, RWE

Ralph Windeatt, ABP

Rhiannon Phillips, Llywodraeth Cymru

Rhys Owen, Cyngor Caerdydd

Rosemary Grogan, Cadno Communications

Sam Rowlands MS, Senedd

Sara Powell-Davies, RUK Cymru

Sarah Jones, Cadno Communications

Tom Glover, RWE

Tom Spencer, Grid Cenedlaethol

Tony Cooke, Ynni Cymunedol Caerdydd

1. Croeso a chyflwyniadau

- Croesawyd pawb gan y Cadeirydd
- Cafwyd ymddiheuriad gan Rhys Wyn Jones.

2. Siaradwyr gwadd

- Croesawodd y cadeirydd y siaradwyr a rhoddodd fywgraffiad byr o bob un.
- Rhoddodd Malcolm Crosby, Rheolwr Prosiectau Ynni Adnewyddadwy ar gyfer Forestry and Land Scotland, a Mike Palmer, Dirprwy Gyfarwyddwr Cynllunio a Pholisi Morol, Llywodraeth yr Alban, gyflwyniadau.



3. Cwestiwn ac Ateb

C. A oes cynlluniau i symleiddio'r broses ganiatâd i gyflymu'r broses o'i rhoi ar waith mewn ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a geo-wleidyddol?

A. Mae llawer o sylw i sicrwydd ynni ar hyn o bryd yng sgil rhyfel yn Wcraïn ac mae hyn yn cael effaith gynyddol ar bolisi ynni yn yr Alban a'r DU. Mae elfen fawr o ganiatâd alltraeth yr Alban wedi'i neilltuo i San Steffan o dan Ddeddf Trydan 1989, ond mae Llywodraeth yr Alban yn edrych ar ffyrdd y gall symleiddio'r broses ganiatâd heb ddileu amddiffyniadau statudol ar gyfer buddiannau amgylcheddol a defnyddwyr eraill. Bydd yn rhaid inni gynyddu'r cyflymder i gyrraedd sero net. Yn yr amgylchedd morol, mae'n cymryd 12 mlynedd a mwy ar gyfartaledd i ddatblygu prosiectau. Yn yr Alban, ein targed sero net yw 2045. (MP)

C. Beth fyddai'r prif bethau i'w dysgu (pethau allweddol i'w gwneud/peidio â'u gwneud) y byddech chi'n eu darparu i Lywodraeth Cymru wrth ystyried sefydlu Ynni Cymru a'i rôl a'r cyfle i wneud y gorau o ddefnydd ynni adnewyddadwy yng Nghymru?

A. Roedd Partneriaethau Ynni Adnewyddadwy yn cwmpasu'r holl dir yn y sector cyhoeddus, ond ystyriwyd bod graddfa'r cyfalaf yn rhy fawr ar gyfer buddsoddiad cyhoeddus. (MC)

Mae adeiladu fferm wynt alltraeth 1GW yn costio tua £2.5 biliwn, ac mae'n her i'r sector cyhoeddus gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu ac adeiladu ffermydd gwynt. Edrychodd Llywodraeth yr Alban yn ofalus ar sefydlu cwmni ynni cyhoeddus, ac mae dogfennau wedi'u cyhoeddi ar yr opsiynau strategol. Un o'r pethau a ddysgwyd oedd nodi lle mae pwerau wedi'u cadw a phwerau datganoledig. Yn yr Alban mae llawer iawn o bolisi rheoleiddio wedi'u cadw. Mae'n ei gwneud yn anodd sefydlu cwmni sydd â'r cymhwysedd a'r pwerau sydd eu hangen i'r cwmni weithio'n llwyddiannus. Mae problem hefyd yn ymwneud â benthycu, mewn sefyllfa ddatganoledig nid oes gennyh bweru benthycu llawn. Mae'r Alban wedi bod yn edrych ar yr ochr fanwerthu, mae'r farchnad ynni manwerthu yn gyfnewidiol iawn ac yn heriol iawn. Mae angen edrych yn ofalus ar ddangosyddion marchnad a deinameg. (MP)

C. Sut ydych chi wedi bod yn ymchwilio i wneud y gorau o ynni'r llanw yn yr Alban?

Mae Llywodraeth yr Alban wedi cefnogi EMEC (Canolfan Ynni Morol Ewropeaidd) yn Orkney. Mae ganddi rai o'r llanwau a'r cerhyntau cryfaf yn y byd ac mae'n atalfa sy'n creu symiau mawr o ynni. Mae llawer o arloesi a phrototeipiau wedi cael eu datblygu yn EMEC yn ystod y deng mlynedd diwethaf. Rydym yn canfod bod dyfeisiau llanw'n gweithredu ar raddfa gymharol fach, tua 10 MW. Nid ydym eto'n gweld y raddfa ddiwydiannol o gynhyrchu ynni sydd i'w gael o wynt. Nid yw ar raddfa eto a fyddai'n diwallu anghenion ynni'r Alban na'r DU ond maent yn cael eu harchwilio. Rydym yn parhau i gefnogi'r math hwnnw o arloesi hyd eithaf ein gallu drwy drwyddedu a rheoleiddio. (MP)

Pwynt atodol: A ydych chi'n teimlo mai diffyg buddsoddiad yw'r rheswm pam nad yw'r llanw wedi profi'r gallu i dyfu, neu ai'r dechnoleg sy'n gyfrifol am hyn? Mae llawer yn cael ei wario ar ynni niwclear ledled y DU, nad yw'n cael ei wario ar ynni adnewyddadwy.

Bu lefel resymol o fuddsoddiad ac mae seilwaith ar waith drwy osodiadau EMEC sy'n darparu'r seilwaith sydd ei angen ar gwmnïau newydd, arloeswyr ac entrepreneuriaid yn Orkney i brofi a phrototeipio eu modelau. Mae'r amgylchedd ar gyfer creu arloesedd yno ac fe'i cefnogir gan Lywodraeth yr Alban. Mae pwyslais wedi bod ar fuddsoddiad gan y sector preifat sydd angen y dystiolaeth ei fod yn ymarferol yn fasnachol. (MP)

C. A allech ymhelaethu ar sut mae uwchraddio cyllid i seilwaith porthladdoedd i gefnogi ymgyrch i sero net o dderbyniadau cyfalaf yn gweithio'n ymarferol?

Mae Ystad y Goron yr Alban yn gallu darparu buddsoddiad cyfalaf i wella neu gynnal gwerth asedau Ystad y Goron. E.e., gallant bartneru â sefydliadau eraill i gyfrannu buddsoddiad i ddatblygu seilwaith porthladdoedd a harbwr. (MP)



Pwynt atodol: A oes gan Ystad y Goron mewn manau eraill gynlluniau tebyg i fuddsoddi mewn porthladdoedd a seilwaith?

Mae Ystad y Goron a reolir o Lundain yn wahanol i Ystad y Goron yr Alban (CES). Roedd ymdeimlad bod Ystad y Goron a reolir o Lundain yn bell ac nad oedd yn gyfarwydd â chymunedau'r Alban. Un o brif yrwyr datganoli Ystad y Goron oedd ei gwneud yn fwy perthnasol i gymunedau yn yr Alban ac mae CES wedi mabwysiadu agwedd fwriadol iawn o fod yn gysylltiedig iawn â chymunedau. (AS)

C. Pa mor gyfyngedig yw'r grid yn yr Alban? Pa rôl mae Llywodraeth yr Alban yn ei chwarae wrth oruchwylio ateb grid addas ar gyfer y dyfodol?

Mae'r grid wedi'i gyfyngu'n fawr. Y dyddiadau i gysylltu â'r grid, hyd yn oed i'r y rhai sydd â chaniatâd cynllunio, yw 2026-2028. Mae de'r Alban dan gyfyngiadau arbennig o drwm ac mae gwaith uwchraddio mawr yn digwydd. Gall rhoi cyfrif am lwybr y grid, yn ogystal â thyrbinau, gael effaith fawr ar goedwigoedd. (MC)

Gall grid hefyd fod yn rhwystr posibl i ynni alltraeth. Rydym yn gweithio'n agos iawn gyda'r Grid Cenedlaethol i gynllunio seilwaith grid. Mae gennym uchelgeisiau cyfunol o 25GW sy'n fwy na'n tybiaethau cynllunio cychwynnol, sef tua 10GW. Mae'n rhaid i'r Grid Cenedlaethol ail-raddnodi'r cysylltedd grid y bydd ei angen i wasanaethu ScotWind. Mae adolygiad rhwydwaith trawsyrru ar y môr ar y gweill, ac rydym yn disgwyl canlyniadau yr haf hwn. Mae'r adolygiad yn cynnwys edrych ar gynllun rhwydwaith cyfannol a allai gynnwys rhwydwaith grid ar y môr, a fydd yn llawer mwy effeithlon ac effeithiol os ydym am gael 25GW o gapasiti. (MP)

C. Pam ydych chi'n meddwl bod Ystad y Goron Cymru a Lloegr wedi prydlesu cymaint llai ar y môr nag Ystad y Goron yr Alban? Ai prydlesu yw'r cyfyngiad mwyaf ar ddatblygiadau newydd?

Rhoddodd Ystad y Goron ar gyfer Lloegr a'r Alban gap ar y capasiti cynhyrchu, yn wahanol i ScotWind a ddarparodd ôl troed daeryddol a gwahodd datblygwyr i ddod â chynigion, a arweiniodd at uchelgeisiau o 25 GW. Roeddem eisiau datblygiad ac ehangiad mawr i'n cael i sero net ac i'n paratoi ar gyfer yr hyn mae Gweinidogion yr Alban yn meddwl fydd yn ddatblygiad sylweddol o'r economi hydrogen gwyrdd. Mae hwn yn fframwaith strategol hirdymor ar gyfer y 30-40 mlynedd nesaf o ran yr ecosystem ynni y bydd ei hangen i gyflawni sero net. Ni fyddwn o reidrwydd yn rhoi caniatâd i'r 25 GW cyfan, dim ond yr hyn sy'n ymarferol o ran effaith amgylcheddol y byddwn yn ei ganiatáu. (MP)

Nododd Jennifer Pride o Lywodraeth Cymru fod Cymru'n arwain prosiect Grid y Dyfodol, sy'n ceisio sefydlu'r grid sydd ei angen ar gyfer system ynni yn y dyfodol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma <https://es.catapult.org.uk/project/welsh-future-energy-grid-for-net-zero/>

Cafwyd diweddariad gan Rhiannon Phillips o Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y gweithgareddau mae Ystad y Goron yn eu gwneud yng Nghymru i gyfyngu ar yr hyn a olygir gan ddatganoli Ystad y Goron. Mae'r rhan fwyaf o drafodaethau'n ymwneud â phrydlesu, sef un agwedd yn unig ar eu gweithgarwch. Bydd Llywodraeth Cymru yn archwilio ffyrdd o ddylanwadu ar Ystad y Goron dros brydlesu, neu gymryd cyfrifoldeb am gylchoedd prydlesu yn fewnol neu mewn partneriaeth. Yn y cyfamser, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i drafod ag Ystad y Goron am eu gweithgareddau oddi ar ddyfroedd Cymru i sicrhau cynnydd. Mae Llywodraeth Cymru yn cryfhau'r berthynas ag Ystad y Goron ac yn pwysu am sicrwydd ynghylch y Môr Celtaidd o ran y cylch prydlesu nesaf a chynlluniau hirdymor, fel y gall datblygwyr gynllunio, gall porthladdoedd ddatblygu eu seilwaith a gall cyflenwyr baratoi ar gyfer cyfleoedd cadwyn gyflenwi.

Rhoddwyd y cwestiynau canlynol yn y blwch sgwrsio ond ni chawsant eu hateb oherwydd diffyg amser:

- Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed sero net cyfunol o 2030 ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae rhagolygon presennol yn awgrymu mai dim ond 22% y bydd y grid yn datgarboneiddio o fewn yr amserlen hon. Beth ydych chi'n ei awgrymu o ran mynd i'r



afael â'r materion ariannu sydd ar hyn o bryd yn gwahardd gweithredu ynni adnewyddadwy gan y sector cyhoeddus i ddatgarboneiddio eu hallyriadau Cwmpas 2?

- Mae angen storio ynni gwynt newydd ar raddfa fawr neu fel arall bydd y farchnad yn dirlenwi'n gyflym - ond nid oes sôn am storio ynni ar raddfa fawr.
- Mae'r ddyfais fwyaf yn EMEC, Orbital 2MW yn ddeiliad angorfa ar safle Morlais oddi ar Ynys Môn. Mae amcangyfrifon diweddaraf (Prifysgol Plymouth) yn dangos y gallai tonnau a llanw fod hyd at 15% o drydan y DU
- Angen gwybod beth yw'r FES er mwyn gwneud y grid yn barod ar ei gyfer
- Mae'n rhaid bod dileu'r cap prydlesu i Gymru yn flaenoriaeth?

7. Unrhyw fusnes arall

Dim.

8. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Bydd y grŵp yn cyfarfod o leiaf unwaith cyn toriad yr haf, gyda'r cyfarfod nesaf yn debygol o gael ei gynnal ym mis Mehefin. Y pwnc nesaf fydd yr argyfwng ynni o ran costau byw domestig ac annibyniaeth ynni yng sgil rhyfel Rwsia ar Wcrain. Croesewir awgrymiadau am bynciau ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol.